# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 07-08 (p4) : 5 Mawrth 2008**

## Tystiolaeth Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan i'r "Ymchwiliad i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru'

Mae'r cyflwyniad hwn gan Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn cynnig tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ei ystyried yn ystod ei Ymchwiliad i natur ymrwymiad strategol Sefydliadau Addysg Uwch â busnesau yng Nghymru a'u heffaith ar eu heconomïau lleol a rhanbarthol - gan gynnwys cyfraniadau ehangach prifysgolion i'w hardaloedd, fel gwaith cymunedol a chyfraniadau diwylliannol.

Mae gan Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan enghreifftiau niferus o ymrwymiadau â'r economi. Cânt eu grwpio yma fel: (1) ei rôl yn a'i chyfraniad i'r gymuned leol; (2) effaith fel cyflogwr a phrynwr nwyddau a gwasanaethau i gefnogi ei weithrediadau; (3) datblygiad personol a phroffesiynol pobl a'u cymunedau fel corff dysgu gwasgaredig; (4) effaith drwy ddatblygiad menter (5) ymateb uniongyrchol i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymchwilio.

### 1.Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan

1.1 Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yw'r sefydliad prifysgol hynaf yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 1822 ac mae'n gorff academaidd a grëwyd gydag ymdeimlad cryf o genhadaeth sy'n parhau hyd heddiw. Mae'n sefydliad bychan, unigryw sy'n gweld ei hun yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel sefydliad blaenllaw i'r celfyddydau rhyddfrydig, sy'n ymwneud ag ymchwil ac sydd wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedol.

1.2 Mae Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn fenter addysgol a leolwyd ar gampws yn Llanbedr Pont Steffan (Llambed) ym mherfeddion Gorllewin Cymru wledig. Mae'r sefydliad yn arbenigo yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau, gyda phoblogaeth o 1365 o fyfyrwyr llawn-amser a 7780 rhan-amser, yn 2005-06. Data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer 2005-2006

1.3 Mae tref Llambed yn sir Ceredigion yng nghanol cefn gwlad Gorllewin Cymru. Yn gorwedd ar lan yr Afon Teifi, mae'r dref yn ffinio â Sir Gaerfyrddin. Mae ar gyrion ardal partneriaeth economaidd a chynllunio gofodol canolbarth Cymru lle mae'n cwrdd ag ardal gynllunio Gorllewin Cymru. Poblogaeth y dref oedd 1,989 yn 1991, gyda 1,410 o'r rheiny yn siaradwyr Cymraeg. Llambed felly yw tref brifysgol leiaf Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r brifysgol, mewn blwyddyn arferol, yn ychwanegu 1,000 yn rhagor o bobl at boblogaeth y dref, sy'n rhoi naws rhyngwladol a chosmopolitaidd i'r dref wledig hon. Yn wir, mae'r drefn yn fwyaf adnabyddus fel lleoliad Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

1.4 Mae gan Lambed a'r cyffiniau draddodiad diwylliannol cyfoethog ac mae'n rhan o gadarnle'r iaith Gymraeg. Mae'n gartref i nifer o fusnesau arbenigol a gwerthfannau lleol sy'n cyflenwi, er enghraifft, bwydydd organig, sy'n ei gwneud yn ganolfan siopa ddeniadol. Mae presenoldeb y Brifysgol yn helpu cyfrannu at y dewis o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael yn y dref. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at y bywyd diwylliannol mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft drwy letya'r gerddorfa leol, rhaglen agored o ddarlithoedd cyhoeddus, hyrwyddo gweithgareddau coleg a'r dref a chartrefu Gwyl Fwyd Llambed - lleoliad llwyddiannus i gynhyrchwyr bwyd lleol arddangos a gwerthu eu cynnyrch.

1.5Mae'r Brifysgol yn bartner gweithgar ac yn cymryd rhan mewn partneriaethau lleol, gofodol, cymunedol ac economaidd hefyd. Mae awdurdod unedol Ceredigion yn cynnull grwp adfywio economaidd lleol sy'n ymwneud â chynllunio cefn gwlad yn ogystal â strategaeth gymunedol Ceredigion 2020, sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer dysgu gydol oes ac adfywiad economaidd. Mae bwrdd gwasanaeth lleol wrthi'n cael ei ffurfio. Dangosodd ymgynghoriad yn Hydref 2007 ymhlith rhan-ddeiliaid gwasanaethau cyhoeddus, bod cyrchu gwasanaethau lleol yn bwnc cyffredin allweddol, yn enwedig yng nghanol a de'r Sir.

1.6Mae Awdurdodau Lleol Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ynghyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Ymgynghorwyr Hyder i wneud astudiaeth ddatblygu i dref Llambed a'i hamgylchedd. Mae'r adroddiad yn y cyfnod ymgynghori ar hyn o bryd, ond mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd y Brifysgol am resymau economaidd, diwylliannol a datblygiadol.

1.7Cymer y Brifysgol ran mewn gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth yn y Celfyddydau & Dyniaethau gan gynnwys Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, Archaeoleg a'r Gymraeg, er enghraifft. Mae'r Cyngor Ymchwil Prydain gyfan (AHRC) a'r Rhaglen Ewropeaidd (HERA) yn edrych fwyfwy ar allbynnau trosglwyddiad gwybodaeth yn y Celfyddydau & Dyniaethau.

1.8Mae'r Brifysgol yn cynnig llwyfan ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn nhref Llambed a'r fro sy'n nodedig am fod yn weithgareddau cymunedol ac economaidd sy'n digwydd o'r gwaelod i fyny, yn hytrach nag o'r top i lawr drwy gynlluniau gan lywodraeth ganolog neu leol. Mae'r mudiad bwyd organig, Gwyl Fwyd Llambed a Rhwydwaith Hyfforddi'r Cambrian yn enghreifftiau o hyn. Yn fwy diweddar, mae Tref Trawsnewid Llambed yn gynllun sy'n ystyried dyfodol y dref a'r ardal o safbwynt cynaliadwyedd mewn economi olew isel.

### 2. Effaith economaidd ei gweithgareddau

2.1 Menter addysgiadol yw'r Brifysgol, a gyda throsiant blynyddol o dros £14m yn 2007/08, mae gan Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan effaith bwysig ar economi Gorllewin Cymru wledig. Mae'r sefydliad yn gyflogwr mawr, lleol sy'n cynnal cyfanswm o 204 o staff llawn-amser neu gyfatebol yn ogystal â nifer o swyddi anuniongyrchol ac sy'n cyfrannu amcan o £21m i'r economi leol a Chymreig (yn seiliedig ar luosogydd cyhoeddus o 1.65 ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus). Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y refeniw a gyfrannir i'r ardal gan fyfyrwyr cartref a rhyngwladol y Brifysgol a'r ymwelwyr â chynadleddau. Yn ôl amcangyfrif ceidwadol golyga hynny swm

blynyddol ychwanegol o £5m.

2.2 Mae'r sefydliad hefyd yn brynwr nwyddau a gwasanaethau mawr.  Yn ogystal â bod yn gyflogwr uniongyrchol, mae'r Brifysgol yn chwarae rhan allweddol mewn cyflwyno prosiectau economaidd, cymdeithasol a datblygu cymunedol o dan ei waith Trydedd Genhadaeth.  Cyfanswm y gwerth uniongyrchol i'r sefydliad yn y flwyddyn ariannol 2005/06, er enghraifft, oedd £1.5 miliwn neu tua 12% o'r trosiant.

2.3 Mae Ceredigion yn ardal o Gymru sydd â chyflogau isel.  Mae'r ffigyrau diweddaraf am gyflogau yng Nghymru yn y flwyddyn 2007 (Tabl 1) yn dangos enillion wythnosol gros cyfartaledd o £472.10 i Gymru drwyddi draw.  Yr enillion wythnosol gros yng Ngheredigion oedd £433.60, sydd dipyn yn is na Chymru yn gyffredinol.  Roedd merched yng Ngheredigion yn ennill £377.10 ar gyfartaledd, sef 79.8 o'r cyfartaledd i Gymru gyfan a'r isaf o unrhyw ardal a grybwyllir yn yr adroddiad hwn. Mae'r Brifysgol yn un o'r ychydig gyflogwyr sy'n cyflogi staff ar gyflogau uwch yn yr ardal hon.

| Rhyw | Pobl | Dynion | Merched |
|---|---|---|---|
| Ardal | | | |
| Cymru | 472.1 | 510.7 | 417.6 |
| Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 459.6 | 500.7 | 404.7 |
| Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych | 465.8 | 508.0 | 405.6 |
| Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin | 458.5 | 489.8 | 419.0 |
| Abertawe, Castell Nedd PT a Phen-y-bont | 465.6 | 522.9 | 396.3 |
| Rhondda, Cynon, Taf a Merthyr Tudful | 454.5 | 484.7 | 408.7 |
| Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen | 446.2 | 479.5 | 399.5 |
| Dwyrain Cymru | 488.8 | 523.4 | 436.2 |
| Sir y Fflint a Wrecsam | 481.0 | 522.1 | 402.0 |
| Powys a Sir Fynwy | 427.7 | 458.7 | 386.9 |
| Caerdydd, Casnewydd a Bro Morgannwg | 505.4 | 537.7 | 459.1 |
| Sir Gaerfyrddin | 470.8 | 494.5 | 439.8 |
| Sir Benfro | 453.9 | 488.3 | 412.2 |
| **Ceredigion** | **433.6** | **479.6** | **377.1** |

**Tabl 1.2007: Cyfartaledd cyflog wythnosol gros, gweithwyr llawn amser (ffynhonnell www.statswales.gov.uk).**

2.4 Mae'r Brifysgol yn edrych yn barhaus ar ei heffaith fel cyflogwr yn ogystal ag effaith ei gweithrediadau ar ddatblygu economaidd.  Mae gweithgarwch y Drydedd Genhadaeth sy'n cefnogi datblygiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol yn un o nodau allweddol y Brifysgol.  Mae'n cynnwys gwybodaeth a galluoedd y staff yn ogystal â gweithrediadau masnachu'r sefydliad.  Mae cronfa

Trydedd Genhadaeth CCAUC yn arbennig o bwysig i gyllido gwaith sy'n cael effaith tymor-hir cynaliadwy ar fusnes a datblygu a rhyngweithio economaidd. Mae hyn wedi galluogi'r Brifysgol i ddenu incwm arall, fel Cronfeydd Strwythurol a datblygu partneriaeth.

### 3.Dysgu: y cyfraniad economaidd

3.1 Mae'r Brifysgol wedi gweld newidiadau mawr yn yr addysg a dysgu yn ystod y degawd diwethaf ac mae wedi datblygu portffolio sy'n cael ei nodweddu gan ei hyblygrwydd. Mae'r sefydliad yn datblygu darpariaeth dysgu gwasgaredig i foddhau anghenion a galwadau dysgwyr heddiw. Rhennir y ddarpariaeth rhwng cyrsiau llawn-amser a rhan-amser ac mae'r dulliau cyflwyno yn amrywiol hefyd; agored, o bell, hyblyg, electronig, cymysg yn ogystal â dulliau traddodiadol. Mae hyn yn caniatáu mynediad i fyfyrwyr heblaw'r rhai traddodiadol na fyddai fel arall yn astudio yn y ffordd arferol yng nghanol Gorllewin Cymru. Llwyddodd y Brifysgol i ddenu niferoedd cynyddol o fyfyrwyr rhyngwladol.

3.2 Nod y Brifysgol yw cynnig dysg a fydd yn helpu unigolion a grwpiau i fyw, gweithio a ffynnu yn y gymuned y maen nhw wedi ei dewis. Caiff datblygiad addysgol arloesol o dan y thema hon ei gydnabod gan wobrau fel Gwobr Penblwydd y Frenhines am waith mewn dysgu o bell mewn gwirfoddoli, Gwobr Nwy Prydain am Ehangu Mynediad, gwobr Partneriaeth Nestlé am arloesedd mewn addysgu a dysgu, cymeradwyaeth IBM am ddefnyddio TG. Mae'r gwasanaethau y mae'r llwyddiannau yma'n tynnu sylw atynt wedi eu cynllunio i gwrdd ag anghenion pobl yr ardal, Cymru a thu hwnt.

3.3 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddatblygu ystod o sgiliau academaidd a phersonol fel rhan o'r profiad Addysg Uwch. Nod y sefydliad yw rhoi i raddedigion y sgiliau trosglwyddadwy, yr wybodaeth a'r agwedd y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae Pwyllgor Addysgu a Dysgu ac Asesu'r Brifysgol yn cymryd rhan weithgar mewn gwella dulliau o ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy drwy'r cwricwlwm a'r profiad addysg uwch ehangach gan gynnwys trwy leoliadau a phrofiad gwaith. Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan yn rhaglen GO Wales sy'n darparu lleoliadau a phrofiad gwaith. Ar hyn o bryd mae'r sefydliad yn datblygu cefnogaeth i gael Academi Raddedigion fel rhan o raglen Go Wales a fydd yn datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau masnachol i raddedigion fydd yn gwneud cyfraniad positif i fusnes ac economi Cymru.

3.4 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo erioed i'r egwyddor o ehangu mynediad a chynhwysiant cymdeithasol yn rhannol drwy hybu amrywiaeth o gysylltiadau ag ysgolion, colegau trydyddol a chyrff eraill. Mae pedair cainc integredig yn sail i'r Strategaeth Ehangu Mynediad newydd: codi dyheadau; hwyluso cynnydd a chadw; ymgorffori'r agenda fynediad a chyrraedd grwpiau o oedolion yn cynnwys y difreintiedig ac ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

3.5 Bydd y Brifysgol yn parhau i gymryd rhan yng ngweithgareddau Partneriaeth Canolbarth Cymru gydag Addysg Uwch ac Addysg Bellach, wrth geisio cyrraedd targedau Ymgyrraedd yn Ehangach. Mae amcanion y Bartneriaeth hon yn cyd-fynd â dyheadau a thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ehangu cyfranogiad ymhlith grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a phobl na fyddai fel arall yn ystyried neu'n gallu cyrchu addysg bellach neu uwch. Mae'r gweithgareddau sy'n dod o dan y thema yma yn cynnwys clybiau ar ôl ysgol, cynllun adolygu preswyl i fyfyrwyr TGAU, blas o fywyd prifysgol a phrifysgol haf i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

3.6 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i dargedu oedolion o grwpiau lleol nad ydynt yn cyfranogi drwy raglen o ddysgu gydol oes nad yw'n arwain at ddyfarniad gyda llwybrau at gyfleoedd astudio pellach. Un o'r cyfeiriadau datblygu yw pwyslais ar ddinasyddion yn dod yn rhan o'r Gymdeithas Wybodaeth drwy ystod o gyfleoedd dysgu, o ddechreuwyr llwyr i'r henoed. Mae llythrennedd digidol yn bont bwysig i bobl mewn cymuned wledig er mwyn cyrraedd at wasanaethau a goresgyn unigrwydd, yn ogystal â symud ymlaen i ddysgu uwch.

3.7 Caiff dysgu cymdeithasol a chymunedol ei gefnogi hefyd drwy weithio mewn partneriaeth gydag ystod o grwpiau crefyddol ledled Cymru. Mae uned arbennig, Diwinyddiaeth Dysgu Agored, yn darparu rhaglenni arbenigol achrededig a heb gael eu hachredu sy'n hwyluso mynediad i addysg uwch.

3.8 Yn dilyn ymchwiliad o dan nawdd Rhaglen Cyfartaledd yr UE i anableddau ac anfantais yn y gweithle, mae Adran y Gymraeg yn adolygu, profi ac yn ailgynllunio darpariaeth E-ddysgu ddwyieithog i bobl â phroblemau gweld neu glywed.

3.9 Yn deillio o'n gwaith yn ehangu'n cyfleoedd dysgu gydol oes, mae rhaglen dysgu o bell ar waith i gefnogi pobl sy'n gwirfoddoli i weithio mewn mudiadau cymunedol a gwirfoddol. Mae'r rhaglen yn galluogi pobl i astudio mewn lle ac amser o'u dewis nhw ac mae'n denu tua 1000 o bobl bob blwyddyn. Cafodd ei ehangu i gynnig cwrs gradd llawn mewn Astudiaethau'r Sector Gwirfoddol ac mae'n galluogi'r Brifysgol i gael cysylltiad parhaus gyda phobl a mudiadau yn y sector pwysig hwn. Bwriedir ehangu'r ddarpariaeth hon ymhellach trwy'r sector nid-er-mwyn-elw.

### 4.Datblygu Menter

4.1 Mae'r sefydliad yn cefnogi nodau ac amcanion Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru a Rhaglen Cydgyfeiriant yr UE ar gyfer adfywiad economaidd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Dros y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi derbyn £1.0m o Gronfeydd Strwythurol Ewrop.

4.2 Rhaid talu sylw i ddatblygu geiriadur a gramadeg Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg ar-lein ynghyd â rhaglenni dysgu electronig cefnogol. Mae tair miliwn o drawiadau ar yr adnoddau dysgu digidol yma bob blwyddyn. Fe'u cynlluniwyd fel cymorth i gyfieithwyr Cymraeg, ac mae'r prosiect yma hefyd yn cyd-fynd â chyflwyno e-ddysgu i dri deg dau o wledydd ym mhob cwr o'r byd.

4.3 Roedd y prosiect Ymchwil, Arloesedd, Creadigrwydd a Menter (RICE) yn rhaglen holistig ar wella perfformiad i Fusnesau Bach a Chanolig gael gwella'u min cystadleuol a gweld busnesau bach, lleol yn ailgodi. Drwy gyfeirio at y gadwyn fwyd cafwyd mynediad i gwmnïau ac arweiniodd hyn at adnabod partneriaid, er enghraifft cyflenwr bwyd amaethyddol a gafodd ei enwi'n ddyn busnes y

flwyddyn yng Ngheredigion a chwmni arall oedd yn masnachu fel dosbarthwr bwyd cynhenid yn tyfu i fod yn gwmni mawr.

4.4 Gyda chymorth ariannol gan y Gronfa Datblygu Gwybodaeth, Rhaglen Ddeillio Cyllid Cymru a Chyllid Trydedd Genhadaeth HEFCW, rydym yn cynnig hyfforddiant mewn menter ac entrepreneuriaeth, yn trefnu digwyddiadau rhwydweithio, yn hybu menter ac yn cefnogi a mentora graddedigion sy'n dechrau eu busnes eu hunain. Bydd y Brifysgol yn cydweithio â SAU eraill yng Nghymru ar gynlluniau menter o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant newydd.

4.5 Mae'r gwaith o ddatblygu menter yn golygu partneru ar lefel isranbarthol drwy rwydwaith hyrwyddwyr menter y Gronfa Datblygu Gwybodaeth. Mae Rhaglen Ddeillio Cymru hefyd yn faes partneriaeth a chydweithio ffrwythlon gyda grwp rheoli lleol ar gyfer Rhaglen Ddeillio Cymru, yn cynnwys Prifysgol Cymru Aberystwyth, Coleg y Drindod Caerfyrddin, yn ogystal â Phrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Chyllid Cymru sy'n cwrdd bob chwe mis ac yn rhannu arfer a syniadau datblygu.

4.6 Mae gan y sefydliad record dda o ran datblygu sgiliau arloesol ac mae datblygiadau newydd yn gwneud defnydd helaeth o ddadansoddiad y farchnad ac anghenion a hefyd gwybodaeth ar y farchnad lafur. Arweiniodd hyn at ffurfio pedwar craidd i'r strategaeth Trydedd Genhadaeth: entrepreneuriaeth, cyflogadwyedd, addasrwydd (cefnogaeth fusnes) ac ymrwymiad dinesig.

4.7 Mae Gwasanaethau Archeolegol Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn tynnu ar wybodaeth ac adnoddau'r Adran Archeoleg ac Anthropoleg yn Llambed a rhwydwaith o gyrff ac arbenigwyr allanol. Mae'n cynnig ystod o wasanaethau ymgynghoriaeth proffesiynol mewn archeoleg i gleientiaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'r amrywiaeth o wasanaethau'n cynnwys, er enghraifft, gwneud dadansoddiad paill ar y llong ganoloesol yng Nghasnewydd. Mae'r Adran Archeoleg yn gweithio ar brosiect ymchwil a datblygu tymor-hir yn Ystrad Fflur sy'n cynnwys pobl o'r gymuned leol.

4.8Chwiliwn am gyfleoedd ar gyfer defnyddio trosglwyddiad gwybodaeth er lles y Brifysgol.

## 5.Ymateb i Gylch Gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch

lwyddiant SAU mewn cael gafael ar gyllid o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys y defnydd o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, sy'n effeithio ar economïau lleol a rhanbarthol;

Cafodd Prifysgol Cymru, Llambed gryn lwyddiant mewn denu cyllid o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, Mentrau Cymunedol yr UE a Rhaglenni Dysgu Gydol Oes yn ogystal â ffynonellau eraill. Mae gwerth y cyllid Ewropeaidd dros y tair blynedd ddiwethaf yn £1m. Mae'r sefydliad ar y blaen o ran denu Cronfeydd Cymdeithasol yr UE i Addysg Uwch yn y DU, per capita. Gyda'r cyllid hwn llwyddodd y sefydliad i ddatblygu ffurfiau newydd o gyflwyno cyrsiau, cyrraedd grwpiau myfyrwyr newydd a gweithio ar ddatblygiadau arloesol mewn technoleg perfformiad dynol.

y graddau y mae addysg fenter wedi ei hymgorffori yn SAU Cymru; sut y caiff ei llwyddiant ei fesur a'i gloriannu a beth yw'r lefelau a'r mathau o ddiddordeb gan raddedigion ledled Cymru;

Cychwynnodd y Brifysgol Graddedigion i Fenter yng Nghymru yn 1984 ac mae addysg fenter yn dal i fod yn ddarpariaeth lwyddiannus sy'n cyfrannu at yr effaith economaidd i'r ardal ac i Gymru. Mae annog cychwyn busnes a micro fusnesau graddedigion yn bwysig iawn i'r ardal er mwyn gyrru'r economi, yn absenoldeb cwmnïau canolig a mwy o faint. Fel arfer ceir 5 busnes a gychwynnir gan raddedigion ac 1 yn deillio o hynny bob blwyddyn. Mae'r sefydliad yn gweithredu Rhwydwaith Fenter Llambed sydd â'r nod o hyrwyddo addysg mewn menter ac entrepreneuriaeth. Mae'r Rhwydwaith wedi tyfu ers ei ffurfio chwe blynedd yn ôl ac rydym bellach yn estyn gwahoddiadau fel y bo'n briodol i'n myfyrwyr, staff, disgyblion chweched dosbarth lleol, y gymuned fusnes ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb. Cyflwynodd y Brifysgol MBA sy'n cynnwys nifer o lwybrau, gan gynnwys MBA arfaethedig ar gyfer y sector nid-er-mwyn-elw.

y cyfraniad y gall SAU ei wneud i'r agenda sgiliau a'r cydweithrediad gyda chyrff cyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector ac undebau llafur, ac a ydynt yn diwallu anghenion busnesau;

Mae'r Brifysgol yn gweithio ar strategaethau dysgu blaengar seiliedig yn y gwaith a fydd yn ehangu a gwella ystod a safon y cyfleodd sydd ar gael i weithwyr ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn addysg lefel graddedig yn y gweithle. Gwneir hyn drwy gefnogaeth cronfa ddatblygu strategol HEFCW lle mae'r sefydliad yn cydweithio â saith SAU arall yng Nghymru, yn ogystal â thrwy gefnogaeth o'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'r sefydliad yn mynd ar ôl cysylltiadau arbennig sy'n cynnwys dysgu drwy weithredu ac e-bortffolio gyda Sgiliau er Cyfiawnder a People 1st.

y cyfle i gydweithio â'r Sector AB yn dilyn adolygiadau Leitch a Webb;

Mae Adolygiad Graham o addysg uwch ran-amser yng Nghymru (2006) ac Adolygiad Sgiliau Leitch (2007) yn adnabod yr angen am welliannau ar yr ochr gyflenwi yn narpariaeth addysg a hyfforddiant i unigolion. Mae Adolygiad Webb o AB yn annog gwell perthynas rhwng cyflogwr a darparwr ac yn herio SAB ac SAU i ddod ynghyd mewn partneriaeth er mwyn bod y 'gyrrwr sgiliau cydnabyddedig yn eu hardal'. Ymhellach, mae Webb yn awgrymu'n gryf 'y dylid mabwysiadu dull consortia o ddatblygu dyfarniadau newydd' er mwyn darparu cyflwyniad integredig a chydweithredol. Mae gan y Brifysgol hanes teilwng o gydweithio â'r sector AB yn deillio o gydweithrediad parhaus dros ddarpariaeth AU yn AB, partneriaethau mynediad yn ogystal â chynllun Prifysgol i Ddiwydiant learndirect. Mae gan y sefydliad ran mewn datblygu Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol De Orllewin Cymru sy'n dwyn ynghyd AB, AU ac Awdurdodau Lleol mewn ymdrech i wneud dysgu yn llawer mwy hygyrch. Un peth sy'n rhwystro ymestyn cydweithrediad yw'r arfer o fynnu bod SAB yn arwyddo cytundebau neilltuedig gydag un darparwr AB yn unig, allan o'r ardal.

y symudiad tuag at gyfuno a chydweithio rhwng SAU ac effaith hyn ar eu heconomïau lleol a rhanbarthol;

Mae'r sefydliad yn gadarnhaol iawn o safbwynt yr agenda cydweithio. Mae'n cymryd rhan mewn partneriaethau a gwaith ar y cyd pan fo hynny'n bosibl. Arweiniodd y Brifysgol y gwaith o ffurfio Menter Gaffael Ceredigion, roedd yn un o aelodau gwreiddiol ACHHPC (Athrofa Clasuron a Hen Hanes Prifysgol Cymru) sy'n caniatau i fyfyrwyr ennill credydau o bartner sefydliadau tuag at radd ôl-radd, ac mae ganddi nifer fawr o bartneriaid yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r Brifysgol yn cynnal trafodaethau er mwyn ehangu ei phartneriaethau gyda sefydliadau AU eraill, gan gynnwys y Brifysgol Agored ym maes addysgu a Phrifysgolion Aberystwyth a Bangor ym maes ymchwil. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyngor Sir i edrych ar gyfleoedd i gydweithio er lles y ddau ohonom. Mae'r Brifysgol yn bartner mewn nifer o brosiectau cydweithredol arfaethedig eraill gyda sefydliadau AU ledled Cymru. Mantais allweddol i'r economi wledig a rhanbarthol leol yw cael menter addysg uwch sy'n ffynnu. O ran y sefydliad mae gwir fantais cydweithio a phartneriaeth i'w gweld lle mae'r datblygiad yn cyd-fynd â buddiannau'r sefydliad.

cyfraniadau ehangach prifysgolion i'w hardaloedd, yn cynnwys gwaith cymunedol, cyfraniadau diwylliannol, symudedd a marchnadoedd myfyrwyr a graddedigion a gwella mynediad a chyfranogiad.

Mae gan y Brifysgol nod hirdymor o ddarparu dysg a fydd yn helpu unigolion a grwpiau i fyw, gweithio a ffynnu yn y cymunedau lle y dymunant fod. Y dasg barhaus yw cydosod yr anghenion a ganfuwyd gydag arbenigedd drwy atebion sy'n gwneud synnwyr economaidd ac ariannol. Mae'r Brifysgol yn cymryd golwg gyfannol ar ei chyfraniadau i'r ardal, gyda'i leoliad gwledig a'i economi o gyflogau isel. Mae cynllun adfywio drafft Llanbedr Pont Steffan yn cydnabod rôl ganolog y Brifysgol yn y gwaith o greu mwy o ffyniant economaidd i Lambed a'r cyffiniau yng nghefn gwlad Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae'r cyfrifoldeb i greu amgylchedd ffynianus sy'n cynnig gwell lle i fyw, gweithio ac astudio ynddo yn un y mae'r Brifysgol yn ei gymryd yn wirioneddol o ddifrif.